**CABINET**
**DECISION RECORDING LOG**

**DECISION DETERMINED ON: Dydd Mercher, 6 Mehefin 2018**

**DECSION WILL COME INTO EFFECT ON: Manually Type Call in Date**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**CABINET MEMBERS PRESENT:**

County Councillors P.A. Fox, R.J.W. Greenland, R.John, S.B. Jones, P. Jones, S. Jones, P. Jordan and P. Murphy

**OTHER ELECTED MEMBERS PRESENT:**

County Councillors V. Smith

**OFFICERS PRESENT**

| Item Number | Title | Purpose, Consultation & Author | Declaration of Interests | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **3a** | T?R MIHANGEL - CYLLID ADRAN 106, LLANFIHANGEL CRUCORNAU | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod cyllideb gyfalaf o £3,749 yn cael ei chreu yn 2018/19 i ran-ariannu'r prosiect canlynol a bod hwn yn cael ei ariannu o gyfraniad cyfatebol gan falansau adran 106 a ddelir gan y Cyngor Sir mewn perthynas â'r datblygiad yn Nhŵr Mihangel, Llanfihangel Crucornau.<br><br>Bod grant yn y swm hwn yn cael ei ddyrannu i Gyngor Cymuned Crucornau er mwyn gwella a darparu rhagor o offer yn y man chwarae sy'n ffinio â Neuadd Bentref Pandy.<br><br>Bod y cyfraniadau pellach o'r datblygiad hwn yn cael eu cynnwys yn y gyllideb gyfalaf pan gânt eu derbyn heb gyfeirio pellach yn ôl at y Cabinet, i'w defnyddio tuag at y prosiect ardal chwarae a/neu at brosiectau hamdden eraill a nodwyd ac a allai elwa ohonynt. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3b** | Adran 106 cyfraniadau chwarae oddi ar y safle: ariannu gwaith i wella man chwarae | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod cyllideb gyfalaf o £35,000 yn cael ei chreu yn 2018/19 i gyflawni gwaith uwchraddio a gwella i fannau chwarae yn Llan-ffwyst a'r Fenni a bod y gwaith hwn yn cael ei ariannu o gyfraniad cyfatebol o'r balansau adran 106 a ddelir gan y Cyngor Sir mewn perthynas â datblygiad Gavenny Gate (Cod Cyllid N581). |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3c** | DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: YMGYNGHORIAD AR Y PAPUR GWYRDD | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bu'r Cabinet yn ystyried yr ymateb drafft, a amgaeir fel atodiad un, gan awgrymu ychwanegiadau neu ddileadau lle y gellir dod i gonsensws.<br><br>Yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod, i gadarnhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ymateb drafft i'r ymgynghoriad i'w gyflwyno ar ran y Cyngor erbyn y dyddiad cau. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3d** | TROSGLWYDDO'R ASESIAD AR GYFER PRYDAU YSGOL AM DDIM I'R GWASANAETH BUDDIANNAU A RENNIR. | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Cytuno ar y cynnig i drosglwyddo'r asesiad o Brydau Ysgol Am Ddim i'r gwasanaeth buddiannau a rennir am gyfnod o ddwy flynedd o 1af Medi 2018.<br><br>Y gost i gytuno hyn yw £15,500 y flwyddyn, caiff ei dalu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen am ddarparu'r gwasanaeth hwn. Bydd hyn yn cael ei ariannu gan swydd wag bresennol. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3e** | STRATEGAETH RHIANTA CORFFORAETHOL | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y Cabinet yn nodi cynnwys a bwriadau'r strategaeth gorfforaethol a'r cynllun gweithredu.<br><br>Bod y Cabinet yn nodi aelodaeth a chylch gorchwyl y Panel Rhianta Corfforaethol.<br><br>Bod y Cabinet yn ystyried y goblygiadau i bob aelod etholedig a'r cyngor ehangach. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3f** | DATGANIAD ALLDRO MONITRO REFENIW A CHYFALAF 2017/18 | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod yr Aelodau'n ystyried tanwariant alldro refeniw net o £653,000, sy'n welliant ar y rhagolwg o £694,000 ar gyfer rhagamcanion alldro cyfnod 2 (mis 7).<br><br>Bod Aelodau yn ystyried gwariant alldro cyfalaf o £46.8 miliwn yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o £47.2 miliwn, ar ôl llithriant arfaethedig o £11.8 miliwn, gan arwain at danwariant net o £395 mil.<br><br>Bod Aelodau'n ystyried y defnydd o gronfeydd wrth gefn a gynigir ym mharagraff 3.7.1,<br><br>Bod Cabinet yn cefnogi dosraniad tanwariant cyffredinol i ychwanegu at lefelau cronfeydd wrth gefn fel y disgrifir ym mharagraff 3.7.3 isod, h.y.:<br>Cronfa Buddsoddi Blaenoriaeth £155 mil<br>Cronfa Cynhyrchu Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £50 mil<br>Balans Cronfa Buddsoddi i Ail-ddylunio £448 mil<br>Cyfanswm £653 mil<br><br>Bod Aelodau'n nodi y bydd y lefel isel o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn lleihau'n sylweddol hyblygrwydd y Cyngor i gwrdd â her adnoddau prin yn y dyfodol.<br><br>Bod Aelodau yn nodi graddau'r symudiadau mewn balansau ysgolion unigol gan roi pwyslais ar ysgolion i adolygu i ba raddau y gellir cyflwyno cynlluniau adfer dros gyfnodau byrrach, ac yn cynyddu gwerth defnydd net o falansau o ond £94 mil yn lle'r bwriad cyllideb gwreiddiol bod ysgolion yn tynnu ar falansau o £877 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | mil. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3g** | GWEITHGOR CRONFA'R DEGWM | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y grantiau'n cael eu dyfarnu yn unol â'r rhestr ceisiadau. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3h** | MODEL CYFLWYNO AMGEN - DILYNIANT | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Sefydlu tîm Cyngor 'arweiniol' a nodi'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r broses e.e. cyngor cyfreithiol, ac ati.<br>Cymeradwyo cyllid o £30,000 ar gyfer costau'r Cyngor o'r gronfa buddsoddi blaenoriaeth er mwyn cefnogi'r broses ar gyfer y Cyngor.<br><br>Sefydlu tîm arweiniol Model Cyflwyno Amgen dros dro.<br><br>Nodi'r cytundeb Penawdau Telerau Drafft presennol fel enghraifft o'r 'Cytundeb rheoli' a chymeradwyo datblygu'r dogfennau ychwanegol sydd eu hangen i danategu'r broses a pharhau i ddatblygu'r cytundebau angenrheidiol e.e. Erthyglau Cymdeithasiad drafft ar gyfer Teckal ac Elusennau, Llywodraethu ac Aelodaeth Byrddau Teckal ac Elusennau ac ati.<br><br>Gweithredu'r trefniadau ar gyfer recriwtio a rheoli Byrddau Cwmnïau Cysgodol yn unol ag argymhellion llywodraethu'r Pwyllgor Archwilio. Bydd strwythurau cysgodol yn parhau i fod yn gyrff cynghori mewnol hyd nes y bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r penderfyniad i weithredu'r cwmni.<br><br>I gymeradwyo cyflwyno dogfennau corffori cyfreithiol er mwyn sicrhau enwau masnachu, gwefannau, parthau ac ati. Bydd cwmnïau'n cael eu sefydlu fel cwmnïau coeg ar hyn o bryd ac felly byddant yn parhau'n segur nes bod y Cyngor yn gwneud y penderfyniad i weithredu'r cwmni.<br><br>Rhagnodi'r Model Cyflwyno Amgen fel 'corff a dderbynnir' i Gynllun Pensiwn Gwent.<br><br>Cytuno i gychwyn ymgynghoriad TUPE ar gyfer staff yn ystod toriad yr haf. Bydd y broses yn parhau nes i'r cwmnïau gael eu mabwysiadu. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3i** | YSGOL PARK STREET, Y FENNI - Y BRYDLES ARFAETHEDIG | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Rhoi prydles 25 mlynedd i hen Ysgol Park Street i Ymddiriedolaeth Gymunedol y Fenni.<br><br>Rhoi prydles 3 blynedd ar hen faes parcio Ysgol Park Street i Ymddiriedolaeth Gymunedol y Fenni.<br><br>Dirprwyo awdurdod i bennaeth y Gwasanaethau Landlordiaid Masnachol ac Integredig er mwyn cytuno ar y telerau prydlesu. |
| **Additional Information:** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **4** | DIWEDDARIAD KERBCRAFT AC ADBORTH YR ADRODDIAD ANNIBYNNOL | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod Cabinet yn derbyn yr adroddiad perfformiad diweddaraf (fel y'i cyflwynwyd yn flaenorol i bwyllgor dethol Plant a Phobl Ifanc ar 17eg Mai 2018) ac yn cadarnhau bod adroddiadau perfformiad yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc yn unig.<br><br>Bod aelodau'n cael crynodeb cyfrinachol o'r adroddiad annibynnol ar wahanol agweddau ar ymchwiliad Swyddfa Archwilio Cymru i Kerbcraft (adroddiad i'r Cyngor ym mis Mawrth 2017) a'r argymhellion a ddeilliodd o'r ymchwiliad annibynnol. |
| **Additional Information:** | | | | |